


Pwyntiau Gweddi

- ⇒ Doethineb ar gyfer arweiniad i'r dyfodol i'r Fro
- ⇒ Ffydd yng ngallu Duw i achub pechaduriaid trwy'r newyddion da (Rhufeiniaid 1:16)
- ⇒ Cymorth yr Ysbryd Glân i drysori Iesu yn ein calonnau ac i feddwl am ei aberth ef yn gyson (Hebreaid 12:3)
- ⇒ Parodrwydd i fod yn dosturiol tuag at eraill fel Iesu



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Mehefin 2018

Darlleniad y Dydd
Exodus 29:45-46
(BCND tud.78 / BCN tud.71)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Dyma i chi gyfnod hyfryd o heulwen yr ydan ni wedi ei gael dros yr wythnosau diwethaf. Dwn i ddim amdanoch chi, ond i mi, mae cyfres o ddiwrnodau braf yn ysgafnhau pob rhan o fywyd. Mae pethau oedd yn anodd yn ymddangos ychydig yn haws. Mae'r bobl oedd yn achosi trafferth yn ymddangos ychydig yn llai trafferthus. Mor aml yr ydan ni'n syrthio i mewn i'r trap o gwyno am bethau, yn enwedig pan mae'n oer a gwlyb! Pam na wnawn ni gymryd y cyfle yma, tra bod hi'n braf i newid ein hagwedd tuag at y byd, pobl a Duw?


Dewch i ni gofio o ble mae ein llawenydd ni'n dod. Dewch i ni atgoffa ein hunain o'r pethau bendigedig mae Duw wedi ei wneud drosta ni. Beth am y berthynas rhwng Duw a ninnau? Fel Cristnogion, rydan ni'n credu ein bod wedi ein derbyn yn blant i Dduw a bod nifer o'r addewidion wnaeth Duw i Israel yn yr Hen Destament yn berthnasol i ni heddiw.

“Dw i'n mynd i aros gyda pobl Israel. Fi fydd eu Duw nhw. ⁴⁶ Byddan nhw'n deall mai fi ydy'r ARGLWYDD eu Duw nhw, ddaeth â nhw allan o wlad yr Aifft er mwyn i mi fyw gyda nhw. Fi ydy'r ARGLWYDD eu Duw nhw.”

Dyma eiriau Duw wrth ei bobl ar ôl adeiladu'r Tabernacl, pabell cyfarfod pobl â Duw. Mae Duw wedi dod â'r bobl allan o gaethwasiaeth yn Yr Aifft, er mwyn bod gyda nhw. Nid yn ddibwrpas y cafodd pobl Israel eu hachub, ond i'r pwrpas mwyaf hyfryd allech chi ei ddychmygu – i Dduw fod gyda nhw. Daeth yr Arglwydd â'r bobl allan o le ble roeddent yn cael eu cam-drin gan feistri oedd yn cyfri eu hunain yn ganolwyr rhwng y duwiau a'r bobl, i le ble roeddent yn cael eu cyfeirio, eu hamddiffyn a'u caru gan yr Arglwydd yn unig.

Welwch chi sut mae'r hanes yma'n siarad efo ni heddiw? Tybed faint ohonom ni sy'n cael ein rheoli gan rywbeth yn ein bywydau, boed hynny'n berson, sefyllfa neu'n sylwedd? Faint ohonom ni sy'n teimlo ein bod ni yn rhywle sydd ddim yn dda i'n hiechyd corfforol, meddyliol neu, yn waeth – ein hiechyd ysbrydol?

Mae Duw yn siarad efo ni trwy ei Air. Fo ydy Yr Arglwydd ac mae o'n Dduw i ni heddiw. Os down ni ato fo mewn gweddi a gofyn am gael ein hachub o'r sefyllfa, mae'n sicr o wneud hynny.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled) 

Gwion

Llais Bro Aled ar ebost

Yn dilyn y ddeddf gwarchod data newydd (GDPR) a ddaeth i rym ar y 25ain o Fai, ni fyddwch yn derbyn Llais Bro Aled yn electroneg o hyn allan oni bai eich bod wedi ymateb i'r ebost a anfonwyd i chi ar Mai 15fed, neu eich bod yn anfon neges i nodi eich dymuniad i: mair@eglwysibroaled.com.

I ddod

- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson. Croeso i bawb.
- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod nos lau, Mehefin 14eg yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Cyn delio â'r materion gwaith, byddwn yn croesawu y Parch. Mererid Mair Williams a'i phriod Richard i sôn am Apêl Madagascar yr Undeb a lansir yn ystod cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Aberaeron.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan colegybala.org neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk.
- **SUL Y FRO** dydd Sul, Mehefin 24ain – Bydd oedfa i'r teulu cyfan yn Llansannan am 10.30, ac amser i gymdeithasu a chinio wedi ei baratoi yng Nghae Chwarae Llansannan pryd y bydd mochyn wedi ei rostio a phwddin i bawb, a chwaraeon i'r teulu i ddilyn. (Os na fydd y tywydd yn caniatáu inni fod yn yr awyr agored, mae trefniadau wedi eu gwneud inni fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.) Os ydych am aros i ginio, wnewch chi roi eich enw i Mair **erbyn dydd Sul, Mehefin 17eg**, os gwelwch yn dda? Pris y cinio: £5 i oedolion a £2 i blant ysgol gynradd.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Rhufeiniaid 6:22-23 (BCND tud.170 / BCN tud.155)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 6^{ed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 7^{fed} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Gwener – 8^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais gudd er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 ac yn dilyn y gwasanaeth, byddwn yn mynd ar daith i Ganolfan Santes Melangell, Pennant Melangell, Llangynog (SY10 0HQ). Bwriedir teithio mewn ceir a mynd am ginio i'r Plough Country Inn, Llangynog, cyn ymuno yn y gwasanaeth yng Nghanolfan Santes Melangell am 3.00 y prynhawn. Bydd cyfle i fynd oddi amgylch y Ganolfan wedi hynny. Enwau i Rhian Evans (813870) erbyn HEDDIW (3ydd) fan bellaf, os gwelwch yn dda.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yna mae cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i fynd gyda chyfeillion Henllan ar eu taith i Ganolfan Santes Melangell (gweler uchod).

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 6^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones (870656) **HEDDIW (3^{ydd})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 10.00.
- Mawrth – 5^{ed} ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Festri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00 a chynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain hefyd am 10.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.